Ordnance Survey® Arolwg Ordnans®

Mapiau rhad ac am ddim i ddisgyblion 11 oed – Telerau ac Amodau, yn cynnwys Polisi Preifatrwydd

Pwysig: Mae hwn yn gytundeb cyfreithiol (y **Cytundeb**)

Rhwng

(1) Yr Ysgrifennydd Gwladol yn gweithredu trwy'r Arolwg Ordnans (**Arolwg Ordnans**); a

(2) Cynrychiolydd awdurdodedig ysgol yn gweithredu fel defnyddiwr (**chi** neu **eich**),

gyda'i gilydd y **Carfanau**.

Darllenwch y Cytundeb hwn yn ofalus os gwelwch yn dda. Trwy glicio ar fotwm 'rwy'n cytuno', byddwch yn cytuno i'r Cytundeb hwn, p'un a ydych wedi ei ddarllen ai peidio. Os nad ydych yn cytuno, ni allwch gyrchu na defnyddio mewn unrhyw fodd arall y wefan Mapiau rhad ac am ddim i ddisgyblion 11 oed, na'r mapiau rhad ac am ddim sydd ar gael.

Mae'r Arolwg Ordnans, sy'n cyflawni ei fusnes yn bennaf yn Romsey Road, Southampton, SO16 4GU, yn gweithredu gwefan sydd i'w gweld yn URL: www.ordnancesurvey.co.uk/freemapsfor11yearolds (y Wefan), sy'n rhoi'r hawl i ysgolion ym Mhrydain Fawr (Cymru, Lloegr a'r Alban) gyrchu un (1) map rhad ac am ddim ar gyfer pob plentyn yn yr ysgol ym Mlwyddyn 7 (Cymru a Lloegr) neu Primary 7 (yr Alban) ar ddechrau tymor yr hydref (2008) (y Disgybl Cymwys), cyn belled â bod mapiau ar gael. Defnyddir y gair Gwasanaethau i gyfeirio at yr hawl hon i fapiau rhad ac am ddim yn y Cytundeb hwn.

Mae'r Cytundeb hwn yn manylu ar delerau ac amodau cyflenwi'r Gwasanaethau, a'r mapiau rhad ac am ddim, i chi. Dylech argraffu copi o'r telerau a'r amodau hyn i gyfeirio atynt yn y dyfodol.

Mae'r Arolwg Ordnans yn cadw'r hawl ar unrhyw adeg i newid unrhyw rai o delerau'r Cytundeb hwn. Fe fydd pob newid o'r fath yn cael ei ymgorffori yn y Cytundeb hwn ar y dyddiad y bydd yr Arolwg Ordnans yn manylu arno mewn hysbysiad ysgrifenedig i chi yn dilyn eich cais am y Gwasanaethau. Fe fydd yr Arolwg Ordnans yn darparu o leiaf tri deg (30) diwrnod o rybudd i chi o unrhyw newid o'r fath (a derbyn y gallai rhybudd o'r fath bob amser fod yn llai na thri deg (30) diwrnod lle mae angen newid o'r fath yn ôl y gyfraith). Os nad yw'r newidiadau yr hysbysir chi amdanynt yn dderbyniol gennych, fe allwch cyn pen tri deg (30) diwrnod o rybudd o'r fath ddirwyn y Cytundeb hwn i ben gan roi rhybudd ysgrifenedig i'r Arolwg Ordnans.

Pe byddech yn dirwyn y Cytundeb hwn i ben yn unol â'r uchod, byddech yn cydnabod na fyddai gennych hawl i dderbyn y Gwasanaethau nac i ailymgeisio am y Gwasanaethau yn achos y flwyddyn 2008.

1 Gwasanaethau

a) Mae'r Gwasanaethau ar gael am gyfnod cyfyngedig rhwng 20 Awst 2008 a 30 Tachwedd 2008.
b) I ddefnyddio'r Gwasanaethau a'r Wefan hon, mae'n rhaid i'ch ysgol fod ym Mhrydain Fawr ac mae'n rhaid i chi fod yn aelod o staff yr ysgol sydd wedi ei awdurdodi i'w chynrychioli.
c) Rydych yn cydnabod eich bod chi, ar ran yr ysgol a'r Disgyblion Cymwys, yn dod yn rhan o berthynas gytundebol â'r Arolwg Ordnans.
ch) Pan fydd mapiau ar gael, fe fydd yr Arolwg Ordnans yn darparu map o'ch dewis sy'n un o deitlau Explorer™ er budd y Disgyblion Cymwys (Mapiau Disgyblion Cymwys) (ynghyd â sticer map, taflen o'r enw Darllen map heb drafferth yn y byd a llythyr at rieni neu warcheidwaid) at eu defnydd addysgol a phersonol hwy yn unig. Gwaherddir pob defnydd arall yn bendant. Bydd teitl a risg Mapiau Disgyblion Cymwys yn cael eu trosglwyddo i'ch ysgol pan fydd y cyfryw fapiau'n cyrraedd oddi wrth yr Arolwg Ordnans, a bydd y teitl a'r risg yn cael eu trosglwyddo o'ch ysgol i'r Disgyblion Cymwys pan fyddwch wedi dosbarthu'r cyfryw fapiau.
d) Rydych yn cytuno i ddosbarthu'r Mapiau Disgyblion Cymwys, y sticeri map, y taflenni, a'r llythyr i bob Disgybl Cymwys cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol ar ôl i'r cyfryw fapiau gyrraedd eich ysgol, a beth bynnag cyn pen chwe (6) wythnos.
dd) Rydych yn cytuno i ganiatáu i'r disgyblion fynd â'u map adref, ynghyd â'r sticer, y daflen a'r llythyr i'w rhieni/gwarcheidwaid.
e) Yn ogystal â hyn, pan fydd mapiau ar gael, fe fydd eich ysgol yn gymwys i dderbyn un (1) map ychwanegol fesul pob set o bump ar hugain (25) o Ddisgyblion Cymwys (Mapiau'r Ysgol) i'w harchebu trwy adran berthnasol y safle archebu ar y we ar yr un pryd ag archebu ar gyfer yr ysgol, ynghyd â chyngor ar sut i fanteisio i'r eithaf ar Fapiau'r Ysgol. Darperir Mapiau'r Ysgol i'r ysgol at ddibenion addysgol yn unig. Gwaherddir pob defnydd arall yn bendant. Mae teitl a risg Mapiau'r Ysgol yn cael eu trosglwyddo i'r ysgol pan fydd y mapiau'n cyrraedd yr ysgol.
f) Pan fydd y mapiau ar gael, fe fydd yr Arolwg Ordnans yn ceisio ym mhob modd rhesymol i gyflenwi Mapiau Disgyblion Cymwys a Mapiau'r Ysgol i'ch ysgol naill ai rhwng y dyddiad cofrestru yn unol ag Adran 2 isod a diwedd tymor yr hydref (2008) neu cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol wedi hynny.
ff) Eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau bod rhywun ar gael i dderbyn y cyflenwad o fapiau rhad ac am ddim yn ystod oriau ysgol.
g) Mae cyfyngiad ar y Gwasanaethau o un (1) archeb i bob ysgol. Fe fydd pob archeb yn cynnwys mapiau o'r un teitl.
ng) Os oes yn rhaid i'r Arolwg Ordnans dynnu yn ôl unrhyw deitlau map cyhoeddedig, mae'n cadw'r hawl i ddarparu teitl map addas yn ei le cyn anfon eich archeb.
h) Ni chaniateir i chi newid eich archeb am y mapiau rhad ac am ddim ar ôl ei chyflwyno (p'un a yw hynny'n ymwneud â theitlau neu niferoedd y mapiau rhad ac am ddim neu fel arall). Yn amodol ar Adrannau 1 a 6, ni fydd unrhyw fapiau rhad ac am ddim ychwanegol yn cael eu cyflenwi i'r ysgol nac i'r Disgyblion Cymwys.

2 Cofrestru'r ysgol

a) Bydd yr Arolwg Ordnans yn cael dewis p'un a fydd yn derbyn unrhyw archeb a anfonir i'r Wefan hon ai peidio, ac ni fydd wedi'i derbyn hyd nes y bydd yn anfon cadarnhad atoch trwy'r e-bost. Rhaid argraffu a chadw copi o e-bost yr Arolwg Ordnans yn cadarnhau'r archeb. Bydd angen hwn arnoch i wirio'r archeb ac ymateb i ymholiadau.
b) Fe fydd pob archeb a dderbynnir yn gytundeb unigol y mae'r Carfanau'n cytuno arno yn amodol ar delerau'r Cytundeb hwn.
c) Rydych yn cytuno i ddarparu gwybodaeth gyflawn a manwl gywir i'r Arolwg Ordnans mewn cysylltiad â'r Wefan hon neu â'r Gwasanaethau. Mae'r Arolwg Ordnans yn cadw'r hawl i ddilysu nifer y Disgyblion Cymwys yn eich ysgol yn annibynnol, ac mae'r Arolwg Ordnans yn cadw'r hawl i gyflenwi'r nifer gywir o fapiau rhad ac am ddim yn ôl y nifer gywir o Ddisgyblion Cymwys yn eich ysgol.
ch) Pan fydd trydydd parti yn defnyddio'r Wefan hon heb awdurdod, ystyrir bod hyn yn tramgwyddo'r Cytundeb hwn ac fe all yr Arolwg Ordnans ddewis dirwyn y Cytundeb hwn i ben.
d) Rydych chi'n gyfrifol am sicrhau cydymffurfiad llawn â thelerau'r Cytundeb hwn.
dd) Rydych chi'n gyfrifol am gadw cyfrinair yr ysgol yn gyfrinachol. (Fe fydd hwn yn cael ei anfon i'ch ysgol yn y post.) Mae'n rhaid i chi roi gwybod i'r Arolwg Ordnans ar unwaith os ydych yn gwybod neu'n amau bod rhywun wedi ei ddefnyddio heb awdurdod.
e) Fe fydd yr Arolwg Ordnans yn ystyried bod unrhyw archeb y bydd yn ei derbyn o'ch cyfeiriad e-bost chi, ynghyd â'r cyfrinair cywir, yn un rydych chi a'ch ysgol wedi'i hanfon.
f) Rhaid i chi beidio â chyrchu'r Wefan hon at unrhyw ddibenion amhriodol nac anghyfreithlon, a rhaid i chi beidio â chaniatáu i drydydd parti wneud hynny. Ni chaniateir i chi drosglwyddo eich cyfrinair i berson neu endid arall.

3 Eiddo deallusol yn y Wefan

a) Gwarchodir y Wefan, gan gynnwys (ond heb gyfyngiad) unrhyw fapiau, testun, siartiau, adroddiadau unigol, meddalwedd, fideo, cerddoriaeth, sain, graffeg, ffotograffau, darluniadau, celfwaith, enwau, logos, nodau masnach, nodau gwasanaeth a deunydd arall (Cynnwys) â hawlfraint, hawliau cronfa ddata, cyfraith nodau masnach a/neu hawliau eiddo perchnogol neu ddeallusol eraill.
b) Yr Arolwg Ordnans a/neu ei drwyddedwyr trydydd parti sy'n berchen ar yr hawlfraint, hawliau cronfa ddata, nodau masnach a hawliau eiddo deallusol eraill yn y Cynnwys, neu'n eu rheoli.
c) Ni fydd gennych unrhyw hawl na thrwydded yn y Wefan hon neu iddi a/neu'r Cynnwys ar wahân i'r hawl gyfyngedig i ddefnyddio'r Wefan hon yn unol â'r Cytundeb hwn.
ch) Caniateir i chi lawrlwytho un (1) copi wedi'i argraffu o'r Wefan at eich defnydd personol ac anfasnachol chi, cyn belled â'ch bod yn cadw'r holl hysbysiadau hawlfraint ar gopi o'r fath sydd wedi'i lawrlwytho, ac yn cadw at delerau geiriad a hysbysiadau o'r fath.
d) Ar wahân i'r dulliau y manylir arnynt yn yr Adran 3 hon, ni allwch gopïo, atgynhyrchu, ailgasglu, chwalu, dadgydosod, dadbeiriannu, dosbarthu, cyhoeddi, arddangos, perfformio, addasu, trawsyrru na chyfathrebu unrhyw ran o'r Wefan hon a/neu'r Cynnwys, na llwytho rhan i fyny i greu gwaith sy'n deillio ohoni, na'i hecsbloetio mewn unrhyw fodd arall.
dd) Er mwyn osgoi amheuaeth, ni allwch gynnig y Cynnwys neu unrhyw ran o'r Cynnwys ar werth na'i werthu na'i ddosbarthu drwy unrhyw gyfrwng arall (gan gynnwys ei ddosbarthu ar ddarlleiddiad teledu neu radio ar yr awyr neu ar rwydwaith cyfrifiaduron).
e) Er mwyn osgoi amheuaeth, ni allwch adeiladu cronfa ddata o unrhyw ran o'r Cynnwys, ei storio mewn cronfa ddata na'i ddosbarthu.
f) Rydych yn cytuno i ufuddhau i bob hawlfraint ychwanegol, hysbysiadau am nodau masnach neu gyfyngiadau a geir yn y Wefan hon.
ff) Ni allwch ddefnyddio unrhyw un o nodau masnach nac enwau masnach yr Arolwg Ordnans heb ganiatâd yr Arolwg Ordnans, ac rydych yn cydnabod nad oes gennych unrhyw hawliau perchnogaeth mewn enwau a nodau o'r fath.
g) Rydych yn cytuno i hysbysu'r Arolwg Ordnans yn ysgrifenedig ar unwaith os deuwch yn ymwybodol bod unrhyw garfan heb awdurdod yn cyrchu neu'n defnyddio'r Wefan hon, neu bod unrhyw garfan yn torri hawliau eiddo deallusol sy'n bodoli yn y Wefan hon, neu bod unrhyw honiad bod y Wefan hon neu unrhyw ran o Gynnwys y Wefan hon yn torri unrhyw hawlfraint, hawl cronfa ddata, nod masnach, neu'n torri hawliau cytundebol, statudol neu gyfraith gwlad eraill unrhyw drydydd parti.

4 Hawliau Eiddo Deallusol yn y Mapiau Rhad ac am Ddim

a) Mae hawlfraint y Goron a/neu hawliau eiddo deallusol eraill yn berthnasol i fapiau papur yr Arolwg Ordnans.
b) Er mwyn osgoi amheuaeth, mae'r hawliau eiddo deallusol sy'n bodoli mewn map ar wahân i'r eitem wirioneddol ei hun.
c) Hyd yn oed pan fydd y teitl a'r risg yn y Mapiau Disgyblion Cymwys a Mapiau'r Ysgol (sef yr eitemau eu hunain) yn cael eu trosglwyddo, y cyntaf i'r Disgyblion Cymwys a'r ail i'r Ysgol, bydd yr hawlfraint a hawliau eiddo deallusol eraill sy'n bodoli yn y mapiau gwirioneddol yn parhau i fod yn eiddo'r Goron a'r Arolwg Ordnans (neu ein cyflenwyr) ac nid oes unrhyw beth yn y Cytundeb hwn sy'n trosglwyddo'r cyfryw berchnogaeth i chi nac i'r Disgyblion Cymwys.
ch) Yn amodol ar unrhyw hawliau trwyddedu eraill sydd gennych o ran mapiau'r Arolwg Ordnans a/neu'ch hawliau dan y darpariaethau delio teg y manylir arnynt yn Neddf Hawlfraint, Dyluniadau a Phatentau 1988, mae'r Arolwg Ordnans yn cadw ei holl hawliau o ran hawlfraint a hawliau eiddo deallusol eraill, ac ni chaniateir i chi, na'r Disgyblion Cymwys, gopïo neu atgynhyrchu'r Mapiau Disgyblion Cymwys na Mapiau'r Ysgol. Eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau bod y Disgyblion Cymwys yn ymwybodol o'r amod hwn.

5 Polisi preifatrwydd

a) Mae'r Arolwg Ordnans wedi ymrwymo i ddiogelu a pharchu'ch preifatrwydd.
b) Mae'r Arolwg Ordnans wedi cofrestru ei hun gyda Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth at ddibenion Deddf Diogelu Data 1998 (y Ddeddf).
c) Mae'r Polisi Preifatrwydd hwn yn manylu ar y sail y byddwn yn prosesu unrhyw ddata personol y byddwn yn eu casglu oddi wrthych, neu y byddwch yn eu darparu i ni.
ch) Mae hefyd yn manylu ar eich hawl i weld unrhyw ddata personol y mae'r Arolwg Ordnans yn eu prosesu, a'ch hawliau o ran prosesu'ch data personol mewn unrhyw ffordd at ddibenion marchnata uniongyrchol.
d) Trwy gofrestru â'r Wefan hon a/neu gytuno â'r Cytundeb hwn, rydych trwy hyn yn rhoi caniatâd i'r Arolwg Ordnans brosesu'ch data personol yn unol â'r Polisi Preifatrwydd hwn.
dd) Os nad ydych yn ddefnyddiwr cofrestredig, yna ni fydd yr Arolwg Ordnans yn casglu gwybodaeth amdanoch sy'n ei alluogi i'ch adnabod chi'n bersonol, ond mae'n bosibl y bydd yr Arolwg Ordnans yn defnyddio technoleg gyfrifiadurol benodol i'w alluogi i gasglu gwybodaeth nad yw'n bersonol ynglŷn â'ch defnydd chi o'r Wefan hon, fel y nodir isod.
e) Fe fydd angen i chi roi enw llawn eich ysgol, y cyfeiriad a'r rhif ffôn, enw defnyddiwr a chyfrinair eich ysgol a'ch enw llawn chi a'ch cyfeiriad e-bost i'r Arolwg Ordnans.
f) Bydd yr Arolwg Ordnans yn casglu ac yn prosesu'r wybodaeth uchod, ynghyd ag unrhyw ddata personol a ddarperir i ni wedi hynny mewn cysylltiad â'r Gwasanaethau a'r Cytundeb hwn, at ddibenion cyflawni ein hymrwymiadau dan y Gwasanaethau a'r Cytundeb hwn, neu mewn cysylltiad â hwy.
ff) Gall cyflogeion, asiantau neu isgontractwyr yr Arolwg Ordnans gyrchu unrhyw ddata personol y mae'r Arolwg Ordnans yn eu casglu, ond cyfyngir eu defnydd ohonynt i'r hyn sy'n rhan o'u gwaith o gyflawni dyletswyddau mewn cysylltiad â'r Wefan a/neu â'r Cytundeb hwn.
g) Mae'n bosibl y bydd yr Arolwg Ordnans hefyd yn cysylltu â chi, naill ai dros y ffôn, trwy e-bost neu'n ysgrifenedig, er mwyn gwneud ymchwil o bryd i'w gilydd i effeithiolrwydd neu lwyddiant cynllun Mapiau rhad ac am ddim i ddisgyblion 11 oed, ac er mwyn gwella'r Gwasanaethau. Os na fyddwch am gymryd rhan yn ein hymchwil mwyach, ticiwch y blwch priodol i'ch eithrio'ch hun yn nogfennaeth yr ymchwil neu cysylltwch â'r Arolwg Ordnans yn y cyfeiriad y manylir arno yn Adran 9.
ng) Fe allai defnyddio'r Wefan hon arwain at drosglwyddo gwybodaeth dros ffiniau rhyngwladol. Trwy gofrestru â'r Wefan hon a/neu gytuno â'r Cytundeb hwn, rydych trwy hyn yn caniatáu trosglwyddo data personol y tu hwnt i Ardal Economaidd Ewrop (i'r graddau ei bod yn adnabyddadwy).
h) Ni fydd yr Arolwg Ordnans yn datgelu, yn rhentu nac yn gwerthu'ch data personol i unrhyw drydydd parti heb eich caniatâd, ar wahân i'r hyn sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith, neu fel y manylir arno yn y Polisi Preifatrwydd hwn.
i) Fe fydd yr Arolwg Ordnans yn cymryd rhagofalon rhesymol i atal colled, camddefnydd neu newid o ran eich data personol.
j) Mae'r Arolwg Ordnans yn defnyddio haen soced ddiogel i amgryptio'ch data personol, ac yn cadw'r rhain ar wahân ar weinyddwr diogel y mae'n rhaid wrth gyfrinair i'w ddefnyddio.
l) Mae gofyn i gyflogeion, asiantau ac isgontractwyr yr Arolwg Ordnans sy'n cael cyrchu'ch data personol gadw'r data personol hynny'n gyfrinachol ac ni chaniateir iddynt eu defnyddio at unrhyw ddiben ar wahân i'ch galluogi chi i ddefnyddio'r Wefan hon neu'r Gwasanaethau, a/neu mewn cysylltiad â'r Cytundeb hwn.
ll) Os ydych wedi rhoi unrhyw ddata personol i'r Arolwg Ordnans, a chithau am gael copïau o'r data personol hynny, fe all yr Arolwg Ordnans godi deg punt (£10) arnoch am bob copi.
m) Os hoffech i'r Arolwg Ordnans gywiro unrhyw gamgymeriadau ffeithiol, yna cysylltwch â'r Arolwg Ordnans yn y cyfeiriad y manylir arno yn Adran 9. Os gofynnir iddynt wneud hynny, fe fydd yr Arolwg Ordnans yn ymdrechu'n rhesymol i gyflenwi, cywiro neu ddileu eich data personol sydd yn ffeiliau'r Arolwg Ordnans.
n) O bryd i'w gilydd, fe allai'r Arolwg Ordnans gasglu gwybodaeth amdanoch chi nad yw'n nodi yn union pwy ydych (er enghraifft gwybodaeth anhysbys). Fe allai'r math hwn o wybodaeth gynnwys y math o borwr Rhyngrwyd neu system weithredu gyfrifiadurol a ddefnyddiwch, ac enw parth y wefan sy'n eich cysylltu â'r Wefan hon.
o) Pan fyddwch yn edrych ar y Wefan hon, mae'n bosibl y bydd yr Arolwg Ordnans yn cadw peth gwybodaeth ar eich cyfrifiadur. Fe fydd y wybodaeth hon ar ffurf Cwci sy'n helpu'r Arolwg Ordnans i lunio'r Wefan hon fel ei bod yn cyfateb yn well i'ch diddordebau a'r hyn sydd orau gennych.
p) Mae'r rhan fwyaf o borwyr Rhyngrwyd yn eich galluogi i ddileu Cwcis neu dderbyn rhybudd cyn y bydd Cwci yn cael ei gadw. Cyfeiriwch at gyfarwyddiadau'ch porwr neu'r sgrîn helpu i ddysgu mwy am swyddogaethau'r Cwcis hyn.
ph) Dylech fod yn ymwybodol o'r ffaith y bydd yr Arolwg Ordnans, os bydd yn derbyn unrhyw geisiadau oddi wrth yr heddlu neu unrhyw awdurdod rheoliadol neu lywodraethol am wybodaeth am eich gweithgareddau tra buoch wrthi'n defnyddio'r Wefan hon, yn cydymffurfio â cheisiadau o'r fath heb eich hysbysu am hyn.

6 Gwarantau/Cyfyngiad ar Atebolrwydd

a) O ran y Wefan, y Cynnwys a'r Gwasanaethau, darperir y rhain ar sail 'fel ag y mae', ac ar sail 'fel y mae ar gael' ac, heblaw pan ddatgenir yn unswydd yn y Cytundeb hwn, nid yw'r Arolwg Ordnans yn rhoi unrhyw warant o unrhyw fath (boed hyn yn bendant neu'n ymhlyg) ynghylch manwl gywirdeb, amseroldeb neu gyfanrwydd. I'r graddau mwyaf cyflawn y mae'r gyfraith yn ei ganiatáu, nid yw'r Arolwg Ordnans yn derbyn unrhyw atebolrwydd, boed o ran contract, camwedd (esgeulustod) neu unrhyw beth arall, am unrhyw golled, difrod neu anghyfleustra, pa ffordd bynnag y'u hachosir, yn codi yn sgil defnyddio'r Wefan, y Cynnwys a/neu'r Gwasanaethau, neu ddibynnu arnynt, neu mewn cysylltiad â'u defnyddio neu ddibynnu arnynt.
b) Nod yr Arolwg Ordnans yw darparu'r gwasanaeth gorau bosibl i chi, ond ni allwn warantu y bydd y Wefan neu'r Gwasanaethau yn ddi-dor, yn rhydd rhag camgymeriadau, bygiau neu firysau eraill, y bydd diffygion yn cael eu cywiro a/neu y bydd y Wefan a/neu'r Gwasanaethau'n gweithredu fel arall yn unol â'ch disgwyliadau, ac nid ydym yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb neu atebolrwydd yn hyn o beth. Mae'n bosibl y bydd angen i ni atal neu gyfyngu ar eich mynediad i'r Wefan a/neu'r Gwasanaethau o bryd i'w gilydd ar gyfer cynnal a chadw, atgyweirio neu ddibenion eraill, ond os bydd angen i ni wneud hyn fe fyddwn yn ymdrechu i adfer y gwasanaeth mor fuan ag sy'n rhesymol ymarferol.
c) Hefyd, nid yw'r Arolwg Ordnans yn gyfrifol am ddibynadwyedd neu argaeledd parhaus y llinellau ffôn a'r offer a ddefnyddiwch i gyrchu'r Wefan hon.
ch) Fe all yr Arolwg Ordnans ddarparu cysylltau i wefannau trydydd parti gyda phob ewyllys da ac er mwyn gallu cyfeirio atynt yn rhwydd, ond nid oes gennym unrhyw gyfrifoldeb am gynnwys, neu delerau ac amodau sy'n berthnasol i unrhyw wefannau trydydd parti y mae cysylltau iddynt, neu sydd â chysylltau i'n Gwefan ni, na rheolaeth arnynt. Nid ydym yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb nac unrhyw atebolrwydd am unrhyw golled neu ddifrod a allai ddod i'ch rhan yn sgil cyrchu'r cyfryw wefannau trydydd parti, gan gynnwys, ond heb gyfyngiad, colled neu ddifrod a ddaw i'ch rhan yn sgil defnyddio unrhyw gynnwys a geir ynddynt, neu ddibynnu ar y cynnwys hwnnw. Rydych yn gyfrifol am adolygu unrhyw delerau ac amodau sy'n berthnasol i'r cyfryw wefannau trydydd parti.
d) O ran y mapiau rhad ac am ddim, heblaw pan ddatgenir yn unswydd yn y Cytundeb hwn, mae'r Arolwg Ordnans yn eithrio i'r graddau mwyaf cyflawn y mae'r gyfraith yn ei ganiatáu, pob gwarant, amod, gosodiad neu ddatganiad arall (boed hyn yn bendant neu'n ymhlyg yn y statud, cyfraith gwlad neu beidio) gan gynnwys ond heb gyfyngiad unrhyw rai sy'n ymwneud ag addasrwydd i'r diben, ansawdd boddhaol, perfformiad, defnydd, natur neu ansawdd y mapiau rhad ac am ddim. Nid yw'r Arolwg Ordnans yn derbyn unrhyw atebolrwydd, boed o ran contract, camwedd (esgeulustod) neu unrhyw beth arall, am unrhyw golled, difrod neu anghyfleustra, pa ffordd bynnag y'u hachosir, yn codi yn sgil defnyddio'r mapiau rhad ac am ddim, neu ddibynnu arnynt, neu mewn cysylltiad â'u defnyddio neu ddibynnu arnynt.
dd) Nid yw'r naill garfan na'r llall yn eithrio na'n cyfyngu atebolrwydd o ran twyll, anaf personol neu farwolaeth. Ac eithrio o ran ei atebolrwydd yn achos twyll, niwed personol neu farwolaeth, fe fydd cyfyngiad ar gyfanswm atebolrwydd yr Arolwg Ordnans i chi neu i unrhyw drydydd parti dan y Cytundeb hwn boed o ran contract, camwedd (gan gynnwys esgeulustod) neu fel arall, o bum mil o bunnoedd (£5,000).
e) Cyflenwi teitlau map eraill cyn gynted ag y bo'n ymarferol gwneud hynny fydd eich unig rwymedi cyfyngedig os cyflenwir mapiau rhad ac am ddim sydd yn wallus, yn ddiffygiol, yn anghywir neu'n anghyflawn.
f) Ni fydd yr Arolwg Ordnans yn atebol i chi nac i unrhyw drydydd parti, dan unrhyw amgylchiadau, am unrhyw hawliad arbennig, anuniongyrchol, dilynol nac achlysurol, neu am golli elw neu arbedion disgwyliedig neu gontractau neu fusnes neu ewyllys da boed wedi'i seilio ar warant, contract, camwedd (gan gynnwys esgeulustod) neu fel arall, sy'n codi yn sgil neu mewn cysylltiad â'r Cytundeb hwn, hyd yn oed os cafodd yr Arolwg Ordnans wybod am bosibilrwydd o'r fath.
ff) Nid yw'r Cytundeb hwn yn effeithio ar unrhyw hawliau statudol a allai fod gennych chi neu drydydd parti fel defnyddiwr.

7 Dod â'r cytundeb i ben

a) Mae'r cynnig cyfyngedig hwn yn cau ar 30 Tachwedd 2008. Ni fydd yr Arolwg Ordnans yn derbyn unrhyw archeb sy'n cael ei throsglwyddo i'r Arolwg Ordnans ar ôl hanner nos ar 30 Tachwedd 2008.
b) Bydd adrannau 3, 4, 5, 6, 7, 8 a 9 yn goroesi terfyn y Cytundeb hwn, waeth beth fo'r rheswm.
c) Ni fydd terfynu'r Cytundeb hwn yn niweidio nac yn effeithio ar unrhyw hawl i weithredu neu rwymedi a ddaeth i ran, neu a ddaw i ran y naill garfan neu'r llall.

8 Newidiadau i'r Wefan

a) Rydych yn derbyn bod gan yr Arolwg Ordnans hawl i newid y Cynnwys neu fanylebau technegol unrhyw agwedd ar y Wefan hon ar unrhyw adeg, fel a wêl orau ei hun.
b) Rydych yn derbyn ymhellach y gallai'r cyfryw newidiadau olygu na fyddwch yn gallu cyrchu'r Wefan hon.

9 Telerau cyffredinol

a) Ni chewch drosglwyddo'ch hawliau na dirprwyo'ch dyletswyddau dan y Cytundeb hwn heb ganiatâd ysgrifenedig yr Arolwg Ordnans. Ni fydd unrhyw newid yn statws cyfreithiol yr Arolwg Ordnans yn effeithio ar ddilysrwydd y Cytundeb hwn ac eithrio yn ôl gofynion y gyfraith. Mewn amgylchiadau o'r fath, fe fydd y Cytundeb hwn yn rhwymo ac yn cyfarwyddo er budd unrhyw gorff sy'n olynu'r Arolwg Ordnans.
b) Nid yw'r Cytundeb hwn yn creu nac yn bwriadu creu unrhyw asiantaeth, partneriaeth, cyd-fenter, perthynas cyflogai/cyflogwr.
c) Fe fydd yr Arolwg Ordnans yn anfon pob hysbysiad neu gyfathrebiad mewn cysylltiad â'r Gwasanaethau i'ch cyfeiriad e-bost neu gyfeiriad yr ysgol y gwnaethoch ei nodi yn ystod y broses gofrestru.
ch) Gallwch anfon pob hysbysiad at yr Arolwg Ordnans yn y cyfeiriad a ganlyn:

Mapiau rhad ac am ddim i ddisgyblion 11 oed – 2008
Gwasanaethau i Gwsmeriaid
Yr Arolwg Ordnans
Romsey Road
SOUTHAMPTON
SO16 4GU.

d) Os danfonir hysbysiad trwy e-bost, yna ystyrir ei fod wedi'i gyflwyno pedair awr ar hugain (24 awr) ar ôl anfon yr e-bost (oni bai bod yr Arolwg Ordnans yn derbyn ymateb sy'n dangos nad oedd modd danfon y neges).
dd) Os danfonir hysbysiad trwy'r post cofrestredig, yna ystyrir ei fod wedi'i roi wyth awr a deugain (48 awr) ar ôl dyddiad y postio.
e) Os bydd yr Arolwg Ordnans yn ildio o ran unrhyw dor-rhwymedigaeth sy'n codi dan y Cytundeb hwn, ni ystyrir hyn yn ildio o ran unrhyw doriad arall, ac ni ystyrir unrhyw fethiant ar ran yr Arolwg Ordnans i ymarfer neu ymarfer yn rhannol unrhyw rwymedi yn ildio hawl i ymarfer y rhwymedi hwnnw neu unrhyw rwymedi arall wedi hynny.
f) Os honnir bod unrhyw ran o'r Cytundeb hwn yn annilys, yn ddi-rym neu'n anorfodadwy, mae'r carfanau'n cytuno na fydd effaith ar y cyfrannau sy'n weddill, a bod modd disodli'r gyfran dan sylw â chyfran gyfreithiol sydd debycaf o ymgorffori bwriad gwreiddiol y carfanau ac fe fydd gweddill y Cytundeb hwn yn parhau i fod yn ddilys ac yn orfodadwy, beth bynnag.
ff) Ni fydd yr Arolwg Ordnans yn atebol mewn unrhyw ffordd am unrhyw oedi neu fethiant i gyflawni unrhyw un neu rai o ymrwymiadau'r Arolwg Ordnans dan y Cytundeb hwn am unrhyw reswm y tu hwnt i reolaeth resymol yr Arolwg Ordnans, gan gynnwys ond heb gyfyngiad diffyg neu fethiant gan drydydd parti neu weithred y llywodraeth.
g) Ar wahân i Reolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi, nid oes gan unrhyw un nad yw'n rhan o'r Cytundeb hwn unrhyw hawl dan Ddeddf Contractau (Hawliau Trydydd Parti) 1999 i orfodi unrhyw delerau yn y Cytundeb hwn, ond nid yw hyn yn effeithio ar unrhyw hawl neu rwymedi trydydd parti sy'n bodoli neu sydd ar gael ar wahân i'r Ddeddf honno.
ng) Ni fydd y penawdau yn y Cytundeb hwn yn effeithio ar ei ddehongliad. Cyfeiriadau at adrannau'r Cytundeb hwn yw'r cyfeiriadau at adrannau. Mae ystyr geiriau unigol yn cynnwys yr ystyr lluosog, ac mae'r gwrthwyneb hefyd yn wir.
h) Mae'r Cytundeb hwn yn ffurfio'r cytundeb cyfan rhwng y carfanau. Disodlir neu diddymir yn llwyr pob cytundeb, dealltwriaeth, trafodaeth neu sylwadau blaenorol (ar wahân i gamliwiadau twyllodrus), boed ar lafar neu ar bapur. Ni fydd telerau unrhyw gyfathrebu electronig arall yn ffurfio rhan o'r Cytundeb hwn. Ni fydd unrhyw ddelweddau eraill, deunydd disgrifiadol, sylwadau ysgrifenedig neu lafar, gohebiaeth neu ddatganiad neu lenyddiaeth yn ffurfio rhan o'r Wefan hon neu'r Cytundeb hwn, ac ni fyddant yn cael eu hymgorffori trwy gyfeiriad yng nghynnwys y Wefan hon neu'r Cytundeb hwn.
i) Mae cyfreithiau Cymru a Lloegr yn rheoli'r Cytundeb hwn, ac mae'r carfanau'n ymostwng i awdurdodaeth anghyfyngedig llysoedd Lloegr.

Diweddarwyd y Telerau ac Amodau a Pholisi Preifatrwydd hyn ddiwethaf ar 29 Mai 2008.

© Hawlfraint y Goron 2008. Cedwir Pob Hawl.

Busnes yn y Gymuned GWOBRAU 2008